

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 81/2014



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Arolwg Busnes Twristiaeth Cymru Cam 2, 2014

Arolwg Busnes Twristiaeth Cymru – Cam 2, 2014

Ymchwil ar ran Croeso Cymru

Sarah McDonough a Nicola Cooke, Beaufort Research Cyf.

beaufortresearch

30 years of intelligent research

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch ag:

Ella Hastings

Uwch Swyddog Ymchwil

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Canolfan QED, Ystâd Ddiwydiannol Trefforest

Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, CF37 5YR

Rhif ffôn: 0300 061 6038

E-bost: ella.hastings@wales.gsi.gov.uk

ISBN: 978-1-4734-2250-6

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2014

© Hawlfraint y Goron 2014

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL	1
1. CYFLWYNIAD AC AMCANION	3
2. METHODOLEG.....	4
3. PRIF GANFYDDIADAU	7
3.1 Hyder Busnesau.....	7
3.2 Tarddiad yr Ymwelwyr.....	15
3.3 Gwyliau gartref.....	19

ATODIAD**HOLIADUR YR AROLWG**

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Hyder Busnesau

Roedd bron i hanner (45%) o'r busnesau wedi cael mwy o westeion y mis Awst hwn o gymharu â mis Awst y llynedd; ynddo'i hun mae'n fis ardderchog ar gyfer twristiaeth yng Nghymru. Cafodd 37% lefel debyg o fusnes, tra bod 16% wedi nodi eu bod wedi cael llai o ymwelwyr. Golyga hyn bod tua 82% o fusnesau twristiaeth yng Nghymru wedi cael cynnydd neu lefel debyg o westeion o gymharu ag Awst 2013.

Ymhlith y busnesau a oedd wedi cael mwy o westeion/ymwelwyr, nododd y mwyafrif ohonynt bod hyn oherwydd tywydd gwell (37%) ac roedd 15% yn canmol eu hymdrechion marchnata eu hunain. I'r gwrthwyneb, ymhlith y busnesau hynny a oedd wedi cael llai o westeion/ymwelwyr y mis Awst hwn, roedd un mewn 10 (13%) yn teimlo bod hyn o ganlyniad uniongyrchol i dywydd gwaeth eleni, a nododd 10% arall bod y gostyngiad yn y niferoedd o ganlyniad i beidio â hyrwyddo eu busnes.

Pan ofynnwyd iddynt gymharu trosiant cyffredinol eu busnes ar gyfer mis Awst eleni o'i gymharu â'r llynedd, roedd y canfyddiadau'n adlewyrchu'r rhai a welwyd ar gyfer nifer y gwesteion/ymwelwyr. Dywedodd tua hanner yr holl fusnesau (47%) fod eu trosiant wedi bod yn uwch eleni a nododd (14%) fod eu trosiant wedi bod yn is.

Roedd y rhan fwyaf o'r busnesau'n hyderus am dymor yr hydref sydd i ddod (76%), gyda 24% yn hyderus iawn a 52% yn eithaf hyderus.

Tarddiad yr ymwelydd

Roedd traean o'r busnesau wedi nodi cynnydd yn yr ymwelwyr rhyngwladol o gymharu â 2013; Roedd 31% o'r busnesau wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o'r Almaen, tra bod 17% wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o'r UDA. Nododd un busnes o bob pump (40%) gynnydd yn nifer yr ymwelwyr o 'wledydd tramor eraill'.

Yn Ne Ddwyrain Cymru nododd (31%) o fusnesau gynnydd yn nifer yr ymwelwyr o America, a nododd 52% o'r busnesau yn yr ardal gynnydd yn nifer yr ymwelwyr o 'wledydd tramor eraill'. Fodd bynnag, roedd cyfran helaeth o fusnesau na chafodd ymwelwyr o dramor.

Arhosodd nifer yr ymwelwyr o Gymru a gweddill y DU yr un peth i'r mwyafrif o fusnesau (51% a 46% yn y drefn honno yn nodi dim newid o gwbl).

Ar y cyfan, roedd 25% o fusnesau o'r farn bod eu cleientiaid yn teithio mwy o bellter i gyrraedd eu cyrchfan, a dywedodd 12% fod eu cleientiaid yn teithio pellteroedd llai. Ar sail y canlyniadau hyn, mae'n ymddangos bod rhywfaint o dystiolaeth am fodlonrwydd ymhlith gwesteion i deithio pellteroedd mwy i gyrraedd pen eu taith. Roedd traean (36%) o fusnesau yn Ne Ddwyrain Cymru o'r farn bod eu gwesteion yn teithio o bell, sydd efallai'n cyd fynd â'r cynnydd yn yr ymwelwyr tramor i'r ardaloedd a nodwyd uchod.

Fodd bynnag, i'r mwyafrif o'r busnesau, nid oedd y pellter roedd eu hymwelwyr/gwesteion yn ei deithio i gyrraedd y sefydliad wedi newid, o'i gymharu â'r llynedd (52%).

Roedd mwy na thraean o'r busnesau wedi nodi, ar gyfartaledd, bod eu gwesteion yn teithio mwy na thair awr i gyrraedd eu sefydliad (35%). Roedd cyfran debyg o ymwelwyr/gwesteion (33%) yn teithio rhwng 1.5 a 3 awr i gyrraedd atyniadau a darparwyr llety, tra mai dim ond un o bob deg oedd yn ymwelwyr lleol (yn teithio llai nag 1.5 awr) - yr amser cyfartalog a dreuliwyd i ymweld â sefydliadau twristiaeth oedd 1 awr, 32 munud.

Gwyliau gartref

Gofynnwyd i fusnesau i ba raddau roeddent wedi elwa o'r ffenomen 'gwyliau gartref' (h.y. dewis gwyliau yn y DU yn hytrach na theithio dramor). Roedd yr atebion yn gymysg, ac roedd y mwyafrif ohonynt yn anymrwymol (h.y. yn y categorïau canol). Fodd bynnag, roedd 12% o fusnesau o'r farn eu bod wedi elwa 'i raddau helaeth' (gan gynyddu i 19% ymhlith teithwyr carafán), er ar y cyfan nododd tua 20% o fusnesau nad oeddent wedi elwa o gwbl.

Yna gofynnwyd i'r busnesau p'un a oeddent o'r farn y byddai pobl yn parhau i fynd ar wyliau yn y DU, neu ddewis gwyliau dramor. Ar y cyfan, roedd 62% o fusnesau o'r farn y byddai pobl o'r DU yn parhau i ddewis opsiwn 'aros gartref'; dim ond 17% oedd yn teimlo na fyddent yn dewis yr opsiwn hwn.

Gofynnwyd i'r busnesau hynny a oedd yn teimlo bod y ffenomen aros gartref yn parhau am eu rhesymau dros hyn; roedd y mwyafrif o'r rhain yn teimlo y byddai gwyliau gartref yn parhau'n boblogaidd am ei fod yn rhatach i gael gwyliau yn y DU (32%). Roedd 28% pellach o'r busnesau yn teimlo y byddai'r tywydd yn ffactor a fyddai'n dylanwadu ar y gwyliau yn y DU, gan nodi pe bai'r tywydd yn dda, byddai pobl yn parhau i gael gwyliau yn eu mamwlad.

Ymhlith y busnesau hynny a nododd na fyddai eu gwesteion o'r DU yn dewis parhau i gael gwyliau yn y DU, roedd y mwyafrif ohonynt yn teimlo y byddai hyn yn sgil tywydd anwadal y DU, a'r ffaith bod y tywydd yn well dramor (46%).

1. CYFLWYNIAD AC AMCANION

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal Arolwg Busnesau Twristiaeth Cymru ers 2004. Mae'r ymchwil hwn yn rhoi cipolwg gwerthfawr i'r ffordd y mae busnesau twristiaeth yng Nghymru yn perfformio, ynghyd â'u rhagolygon busnes. Mae'r arolwg yn cynnwys sawl cam o ymchwil ac mae'n cynnwys sampl o fusnesau yn y sector llety a'r sector atyniadau ledled Cymru.

Yr agwedd allweddol ar y prosiect yw ei allu i ddarparu *mewnwelediad yn gyflym*, yn dilyn cyfnodau gwyliau allweddol drwy gydol y flwyddyn. Mae'r mewnwelediadau hyn yn darparu awgrymiadau cynnar o berfformiad busnes.

Er mwyn sicrhau hyn, glynir at amserlen gaeth ar gyfer pob cam o'r arolwg. Mae'r gwaith maes wedi'i amserlennu i ddigwydd ar unwaith yn dilyn dyddiad penodol - mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â chyfnod gŵyl y banc hwyr ym mis Awst. Cyflenwir data'r ymchwil erbyn diwedd yr wythnos o waith maes, gydag adroddiad cyflawn yn cael ei gwblhau erbyn yn gynnar yr wythnos wedyn.

Y meysydd pwnc a gwmpesir gan Gam 2 o arolwg Twristiaeth Busnes 2014 yw:



Hyder busnesau

Nifer y gwesteion/ ymwelwyr o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a hyder am dymor hydref 2014



Tarddiad yr ymwelydd

O ble mae ymwelwyr yn teithio ac os taw yw cyfran yr ymwelwyr o Gymru a thramor wedi newid yn ystod y 12 mis diwethaf



Gwyliau gartref

A ydyw'r ffenomen 'gwyliau gartref' wedi bod o fudd i'w busnes, a ydynt yn credu y bydd yn parhau a'r rhesymau dros eu barn

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys prif ganfyddiadau'r arolwg.

2. METHODOLEG

Cynhaliwyd yr arolwg dros y ffôn gan ddefnyddio technoleg CATI (Cyfweiliadau Personol gyda Chymorth Cyfrifiaduron) gan uned gyfweled benodedig Beaufort Research. Cymerodd cyfweiliadau rhwng 5 - 6 munud i'w cwblhau a chynigwyd dewis i bob ymatebydd gynnal eu cyfweled yn yr iaith o'i ddewis, Saesneg neu Gymraeg. Cymerodd cyfanswm o 4% o'r sampl eu cyfweled yn Gymraeg; roedd mwy wedi manteisio ar yr opsiwn hwn yng Ngogledd Cymru (6%), a'r lleiaf yn Ne Ddwyrain Cymru (1%).

Cynhaliwyd cyfanswm o **405 cyfweled**, a digwyddodd y gwaith maes rhwng 27^{ain} a 29^{ain} Awst 2014. Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn ddydd Mawrth 9^{fed} Medi; llwyddwyd i wneud y gwaith yn gyflym oherwydd yr ymateb rhagorol gan y busnesau a oedd yn frwdfrydig ac yn barod iawn i gymryd rhan.

Roedd y grŵp samplu ar gyfer yr ymchwil (a oedd yn cynnwys busnesau heb radd yn ogystal â rhai â gradd) yn cynnwys busnesau llety yng Nghymru oedd yn hysbys i Croeso Cymru (gwybodaeth wedi'i darparu gan Croeso Cymru ac wedi'i darganfod gan Beaufort Research), a phob atyniad twristiaeth hysbys yng Nghymru (gwybodaeth a ddelir gan Beaufort Research). Roedd y busnesau'n ymrannu'n un o bedwar grŵp busnes gwahanol:

- Atyniadau
- Llety â gwasanaeth
- Llety hunan ddarpar
- Parciau carafán / Canolfannau gwersylla

Cafodd busnesau eu categorio hefyd yn ôl rhanbarth. Cafodd yr Awdurdodau Unedol canlynol eu cynnwys ym mhob un o bedwar rhanbarth Llywodraeth Cymru a ddefnyddiwyd ar gyfer dadansoddi'r data:

Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	De Orllewin Cymru	De Ddwyrain Cymru
Ynys Môn	Ceredigion	Sir Gaerfyrddin	Blaenau Gwent
Conwy	Gwynedd*	Castell-nedd Port	Pen-y-bont ar Ogwr
Sir Ddinbych	Powys	Talbot	Caerffili
Sir y Fflint		Sir Benfro	Caerdydd
Gwynedd*		Abertawe	Merthyr Tudful
Wrecsam			Casnewydd
			Sir Fynwy
			Rhondda Cynon Taf
			Torfaen
			Bro Morgannwg

Mabwysiadwyd ymagwedd samplu data, yn ôl y math o fusnes a rhanbarth. Roedd y cwtâu a osodwyd yn gyson â'r rhai a ddefnyddiwyd yng nghamau blaenorol yr ymchwil, ac yn arwain at gyfweld â sampl o fusnesau oedd yn fras yn broffil cynrychioladol. Cymhwyswyd ffactorau pwysoli bychan yn ystod cam y dadansoddiad i fireinio proffil y sampl i adlewyrchu proffil y byd busnes.

Mae tabl 1 isod yn amlinellu nifer y cyfweiliadau a gynhaliwyd gyda phob grŵp busnes ar draws pob un o bedwar rhanbarth Llywodraeth Cymru.

Math o Fusnes	Rhanbarth				CYFANSWM
	Gogledd	Canolbarth	De Orllewin	De Ddwyrain	
Atyniadau	25	10	21	26	82
Llety – â gwasanaeth	42	29	29	30	130
Llety - hunan ddarpar	41	25	39	20	125
Llety - carafanau	23	19	21	5	68
CYFANSWM	131	83	110	81	405

* Noder bod Awdurdod Unedol Gwynedd yn pontio dau ranbarth Llywodraeth Cymru, Gogledd a Chanolbarth Cymru, yn dibynnu ar sector y cod post.

Mae tabl 2 isod yn nodi nifer a chyfran berthnasol y cyfweiliadau a wnaed ym mhob is-grŵp a ddefnyddiwyd yn nadansoddiad y data.

Tabl 2: Dosbarthiadau Is-grŵp

	Nifer y cyfweiliadau	% o'r sampl a bwysolwyd
Math o fusnes		
Atyniadau	82	20
Llety – Cyfanswm	323	80
Llety – wedi'i raddio	290	72
Llety – heb ei raddio	33	8
Math o Lety		
Cyfanswm - â gwasanaeth	130	30
Cyfanswm - hunanddarpar	125	30
Cyfanswm - carafanau	68	20
Graddedig– â gwasanaeth	116	27
Graddedig - hunan ddarpar	115	28
Graddedig – carafanau	59	17
Heb ei raddio - â gwasanaeth	14	3
Heb ei raddio - hunanddarpar	10	2
Heb ei raddio – carafanau	9	3
Rhanbarth		
Gogledd Cymru	131	35
Canolbarth Cymru	83	20
De Orllewin Cymru	110	25
De Ddwyrain Cymru	81	20
Lleoliad y busnes		
Mewndirol	216	53
Glan y môr	150	37
Trefol	35	9

3. PRIF GANFYDDIADAU

3.1 Hyder Busnesau

Gofynnwyd i'r busnesau twristiaeth hynny a oedd yn bodoli ers mwy na 12 mis gymharu nifer y gwesteion/ymwelwyr yr oeddent wedi'u cael yn ystod mis Awst eleni o gymharu â'r rhai a gafwyd yn ystod mis Awst y llynedd.


Roedd bron i hanner (45%) o'r busnesau wedi cael mwy o westeion/ymwelwyr y mis Awst hwn o gymharu â mis Awst y llynedd; sydd ynddo'i hunan yn fis rhagorol i dwristiaeth yng Nghymru. Roedd gan (37%) pellach lefel tebyg o fusnes, tra bod 16% wedi nodi eu bod wedi cael llai o ymwelwyr. Golyga hyn bod tua 82% o'r busnesau twristiaeth yng Nghymru wedi cael cynnydd neu lefel debyg o westeion o gymharu ag Awst 2013.

Dim ond (16%) o'r busnesau a nododd eu bod wedi cael llai o westeion/ymwelwyr - mae hyn bron yr un peth â 2013 (17%).

Gan edrych ar y data yn ôl y math o fusnes, roedd llety â gwasanaeth (59%) a charafanau (51%) yn dangos y gyfran uchaf o fusnesau a gafodd fwy o westeion/ymwelwyr na'r flwyddyn flaenorol.


Dywedodd cyfran llai (27%) o fusnesau llety hunan ddarpar eu bod wedi cael mwy o westeion y mis Awst hwn o gymharu â mis Awst y llynedd, er i 54% ohonynt gofnodi lefelau tebyg o fusnes ym mis Awst 2013, sy'n adlewyrchu cyfraddau uchel o westeion yn ystod y cyfnod brig - gweler Ffigur 1 trosodd.

Ffigur 1



Archwilio niferoedd y gwsteion/ymwelwyr fesul rhanbarth; roedd cyfran uchaf y busnesau a oedd yn nodi mwy o ymwelwyr wedi'u lleoli yng Nghanolbarth Cymru (48%), y De Orllewin a De Ddwyrain Cymru (y ddau yn 47%). Roedd dau o bob pump (39%) o fusnesau yng Ngogledd Cymru wedi nodi mwy o westeion na'r hyn a welwyd yn ystod y mis Awst blaenorol - gweler Ffigur 2 drosodd.

Ffigur 2



Ymhlith y busnesau a oedd wedi derbyn mwy o westeion, nododd y mwyafrif ohonynt fod hyn oherwydd y tywydd gwell (37%) ac roedd 15% pellach yn canmol eu hymdrechion marchnata eu hunain.

Soniwyd am ffactorau eraill gan gyfrannau llai o lawer o fusnesau: dim ond 6% oedd yn teimlo bod argymhellion, ymwelwyr dychwel neu ddigwyddiadau yn yr ardal yn ffactorau a wnaeth gyfrannu at y cynnydd yn y niferoedd, tra bod 2% yn teimlo bod gwelliannau mewn ystafelloedd/cyfleusterau, mwy o bobl Brydeinig yn aros yn y DU neu hysbysebion Croeso Cymru wedi bod yn ffactorau dylanwadol - gweler Tabl 3 drosodd am ragor o fanylion.

Tabl 3

Pam ydych chi'n meddwl eich bod wedi cael mwy o westeion/ymwelwyr (heb awgrymiadau)?	% pob busnes
Tywydd gwell	37
Marchnata eu hunain	15
Gwelliant mewn twristiaeth	9
Busnes wrth yr un bobl	6
Argymhellion	6
Digwyddiadau yn yr ardal	5
Ystafelloedd/ cyfleusterau gwell	2
Mwy o bobl Brydeinig yn aros yn y DU	2
Hysbysebion teledu Croeso Cymru	2
Mwy o gapasiti	1
Mwy o ymwelwyr o dramor	1
Arall	47
Ddim yn gwybod	9

Sylfaen = busnes yn masnachu 12+ mis gyda mwy o ymwelwyr ym mis Awst eleni o'i gymharu â'r llynedd (180)

Roedd rhai o'r sylwadau 'eraill' yn cynnwys:

- Cynnydd yn nifer bobl wnaeth drefniadau ar-lein i aros mewn llety
- Defnydd o 'Trip Advisor' a gwefannau trefnu llety megis 'laterooms.com' a 'bookings.com'
- O ganlyniad i'r dirwasgiad mae mwy o bobl yn aros gartref; gwell gwerth am arian na theithio dramor.

Ymhlith y busnesau hynny a oedd wedi cael llai o westeion/ymwelwyr y mis Awst hwn, roedd un o bob deg (13%) yn teimlo bod hyn o ganlyniad uniongyrchol i dywydd gwaeth eleni, a nododd 10% pellach eu bod yn teimlo bod eu niferoedd yn isel o ganlyniad i beidio â hyrwyddo eu busnes.

Roedd nifer fach o fusnesau (5%) yn teimlo mai'r hinsawdd economaidd oedd y rheswm dros lai o ymwelwyr/westeion. Roedd cyfran llai fyth (3% yr un) wedi nodi bod problemau na ellid eu rhagweld, cystadleuaeth gref neu ddirywiad mewn twristiaeth yn yr ardal wedi cyfrannu at ffigurau isel eu gwesteion/ymwelwyr - gweler Tabl 4 isod.

Tabl 4


Pam ydych chi'n meddwl eich bod wedi cael llai o westeion/ymwelwyr (heb awgrymiadau)?	% pob busnes
Tywydd ddim cystal	13
Heb hyrwyddo'r busnes	10
Hinsawdd economaidd	5
Problemau na ellid eu rhagweld	3
Cystadleuaeth gref	3
Dirywiad mewn twristiaeth yn yr ardal	3
Busnes yn tawelu	3
Arall	52
Ddim yn gwybod	22

Sylfaen = busnesau'n masnachu 12+ mis gyda llai o ymwelwyr y mis Awst hwn o'i gymharu â'r llynedd (63)

Pan ofynnwyd iddynt gymharu trosiant cyffredinol eu busnes ar gyfer mis Awst eleni o'i gymharu â'r llynedd, roedd y canfyddiadau yr un fath ar gyfer nifer yr ymwelwyr/gwesteion. Dywedodd tua hanner yr holl fusnesau (47%) fod eu trosiant wedi bod yn uwch eleni a nododd 14% fod eu trosiant wedi bod yn is.


Yn 2014, roedd busnesau llety â gwasanaeth yn fwy tebygol o nodi bod ganddynt drosiant uwch y mis Awst hwn o gymharu â'r llynedd (58%), tra bod atyniadau fwyaf tebygol o nodi lleihad mewn trosiant (22%) - gweler Ffigur 3 drosodd am fwy o fanylion.

Ffigur 3



Yn nhermau rhanbarth, roedd busnesau yn Ne Orllewin Cymru yn fwy tebygol o nodi cynnydd mewn trosiant o'i gymharu â llynedd (56%), tra bod mwy o fusnesau yn y De Ddwyrain Nghanolbarth Cymru yn nodi lleihad (21%) - gweler Ffigur 4 isod.

Ffigur 4




Roedd y rhan fwyaf o'r busnesau'n hyderus am dymor yr hydref sydd i ddod (76%), gyda 24% yn hyderus iawn a 52% yn eithaf hyderus.

Roedd y lefelau hyder yn eithaf cyson ar draws yr holl fusnesau yr holl fusnesau (ac eithrio llety hunan ddarpar). Ar y cyfan, roedd y lefelau hyder fwyaf uchel ymhlith atyniadau (81% yn hyderus). O ran busnesau hunanddarpar, roedd 69% yn hyderus ar gyfer tymor yr hydref.

Yn rhanbarthol, roedd hyder ar ei fan uchaf ar gyfer y busnesau hynny a oedd wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru (83% yn hyderus - gweler Ffigur 5 drosodd).

Ffigur 5



3.2 Tarddiad yr Ymwelydd


Gofynnwyd i'r holl fusnesau os oedd cyfran y gwesteion/ymwelwyr a oedd yn dod i'w sefydliad o wledydd gwahanol ac o ranbarthau byd eang wedi newid yn ystod y 12 mis diwethaf.

Nododd un traean o'r busnesau gynnydd yn yr ymwelwyr o dramor o gymharu â 2013; roedd 31% o'r busnesau wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o'r Almaen, tra bod 17% wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o'r UDA. Roedd un o bob pump o'r busnesau (40%) wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr 'o wledydd tramor eraill.'

Yn Ne Ddwyrain Cymru, nododd 31% o fusnesau gynnydd yn yr ymwelwyr o America, a nododd 52% o fusnesau yn y rhanbarth gynnydd yn yr 'ymwelwyr o wledydd tramor eraill'. Fodd bynnag, roedd cyfran helaeth o fusnesau na chafodd ymwelwyr o dramor.

Arhosodd nifer yr ymwelwyr o Gymru a gweddill y DU yr un peth gan fwyaf ar gyfer y mwyafrif o'r busnesau (51% a 46% yn y drefn honno yn nodi dim newid o gwbl) - gweler Ffigur 6 drosodd am fwy o fanylion.


Ffigur 6



Ar y cyfan, roedd tua 25% o fusnesau o'r farn bod eu cleientiaid yn teithio pellteroedd mwy i gyrraedd eu sefydliad, a 12% yn honni bod eu cleientiaid yn teithio pellteroedd llai. Ar sail y canlyniadau hyn, mae'n ymddangos bod rhywfaint o dystiolaeth am fodlonrwydd ymhlith gwsteion i deithio pellteroedd hirach i gyrraedd pen eu taith. Roedd traean (36%) o fusnesau yn Ne Ddwyrain Cymru o'r farn bod eu gwsteion yn teithio o bell, efallai'n cydfynd â'r cynnydd yn yr ymwelwyr o dramor i'r rhanbarth a nodir uchod.

Fodd bynnag, dywedodd y mwyafrif o'r busnesau nad oedd newid yn y pellter roedd ymwelwyr/gwsteion yn ei deithio i'w sefydliad o'i gymharu â'r llynedd (52%) - gweler Ffigur 7 drosodd.


Ffigur 7



Nododd mwy na thraean o fusnesau, ar gyfartaledd, fod eu hymwelwyr/gwsteion wedi teithio am fwy na thair awr i gyrraedd eu sefydliad (35%). Roedd cyfran debyg o wsteion/ymwelwyr (33%) wedi teithio rhwng 1.5 awr a 3 awr i gyrraedd atyniadau a darparwyr llety, ond dim ond un o bob deg oedd yn ymwelwyr lleol (yn teithio am lai nag 1.5 awr) - yr amser cyfartalog a dreuliyd yn teithio i ymweld â sefydliadau twristiaeth oedd 1 awr 32 munud - gweler Ffigur 8 drosodd.

Ffigur 8

Ar gyfartaledd, pa mor bell ydy eich gwsteion/ymwelwyr yn teithio yn y car neu drwy drafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd eich sefydliad?




Sylfaen: pob busnes (405)

3.3 Gwyliau gartref

Gofynnwyd i fusnesau nodi i ba raddau roeddent wedi elwa o'r ffenomen 'gwyliau gartref' (h.y. dewis gwyliau yn y DU yn hytrach na mynd dramor). Roedd yr atebion yn gymysg, ac roedd y mwyafrif ohonynt yn anymrwymol, (h.y. yn y categorïau canol). Fodd bynnag, roedd 12% o fusnesau o'r farn eu bod wedi elwa 'i raddau helaeth' (gan gynyddu i 19% ymhlith defnyddwyr carafán), er ar y cyfan roedd tua 20% o fusnesau wedi nodi nad oeddent wedi elwa o gwbl.

Gwelwyd gwahaniaethau bach rhwng gwahanol fathau o fusnesau; roedd cyfran ychydig yn uwch na'r cyfartaledd o fusnesau carafán yn teimlo bod eu busnes wedi elwa o'r ffenomen 'gwyliau gartref' (34%) er, i'r gwrthwyneb, roedd cyfran uwch na'r cyfartaledd o fusnesau carafán yn teimlo nad oeddent wedi gweld budd y ffenomen o gwbl (41%) - gweler Ffigur 9 isod.


Ffigur 9



Yna gofynnwyd i'r busnesau p'un a ydynt o'r farn y byddai pobl yn parhau i gael gwyliau yn y DU, neu ddewis gwyliau dramor. Ar y cyfan, roedd 62% o fusnesau o'r farn y byddai pobl o'r DU yn parhau i ddewis opsiwn 'gwyliau gartref'; dim ond 17% oedd yn teimlo na fyddent yn dewis yr opsiwn hwn.

Roedd atyniadau'n fwy tebygol o nodi y byddai'r ffenomenon gwyliau gartref yn parhau (68%), tra bod darparwyr llety â gwasanaeth fwyaf tebygol o nodi na fyddai (21%). Roedd y canfyddiadau yn eithaf cyson ar draws gwahanol ranbarthau Cymru - gweler Ffigur 10 isod.

Ffigur 10



Gofynnwyd i'r busnesau hynny a oedd yn teimlo y byddai'r ffenomen 'gwyliau gartref' yn parhau a beth oedd eu rhesymau am hyn; roedd y mwyafrif ohonynt yn teimlo y byddai gwyliau gartref yn parhau'n boblogaidd am ei fod yn rhatach i gael gwyliau yn y DU (32%). Roedd 28% pellach o fusnesau yn teimlo y byddai'r tywydd yn ffactor dylanwadol o ran cael gwyliau yn y DU, gan nodi pe bai'r tywydd yn dda, y byddai pobl yn parhau i gael gwyliau yn eu mamwlad.

Roedd chwarter y busnesau (24%) yn teimlo bod problemau yn ymwneud â theithiau awyr (fel cynnydd mewn diogelwch, a chost gyffredinol teithiau awyr) yn ogystal â phryderon diogelwch yn ymwneud â therfysgaeth a damweiniau yn yr awyr yn dylanwadu ar benderfyniad pobl i barhau i gael gwyliau yn y DU.

Roedd un pumed o'r busnesau yn teimlo y byddai pobl yn parhau i gael gwyliau yn y DU oherwydd y golygfeydd hardd, ansawdd yr amwynderau a'r atyniadau lleol (18%) - gweler Tabl 5 isod

Tabl 5

Pam fydddech chi'n dweud y bydd gwesteion/ymwelwyr yn parhau i ddewis i gael gwyliau yn y DU (heb awgrymiadau)?	% pob busnes
Rhesymau ariannol / llai o gost / cyflwr yr economi	32
Mae'n dibynnu ar y tywydd / os yw'r tywydd yn dda	28
Problemau yn ymwneud â theithiau awyr / teithio tramor - drud, problemus, cynnydd yn y diogelwch, ofn terfysgaeth, damweiniau awyrennau	24
Mae gennym leoliad da (golygfeydd / amwynderau / atyniadau / cyrchfannau twristiaeth)	18
Mae gennym gwsmeriaid rheolaidd sydd fel arfer yn treulio gwyliau yn y DU (pobl hŷn, teuluoedd) / yn addas ar gyfer gwyliau byr	11
Anghydfod dramor / ymwybyddiaeth fyd-eang yn atal pobl rhag mynd dramor	6
Bydd pobl yn dewis cael gwyliau dramor ac yn y DU / cael dau wyliau	4
Rydyn ni'n cynnig gwasanaeth da / llety sydd o safon dda	3
Llawer o gyhoeddusrwydd / marchnata ar gyfer twristiaeth Cymru	3
Mae gwesteion yn hoff o ddod â'u cŵn gyda nhw	2
Yn seiliedig ar brofiad blaenorol / tueddiadau ymwelwyr	2
Arall	8
Ddim yn gwybod	2

Sail = pob busnes sydd o'r farn y bydd pobl o'r DU yn parhau i gael gwyliau yn y DU (250)

Ymhlith y busnesau hynny a oedd wedi nodi na fyddai gwesteion/ymwelwyr o'r DU yn dewis parhau i gael gwyliau yn y DU, roedd y mwyafrif yn teimlo y byddai hyn oherwydd y tywydd anwadal yn y DU, a'r ffaith bod y tywydd yn well dramor (46%).

Roedd (39%) pellach o fusnesau yn teimlo wrth i gyflwr yr economi wella, y byddai mwy o bobl yn dychwelyd at eu harfer o gael gwyliau dramor. Mewn cyferbyniad â'r ffigurau yn Nhabl 5, nododd 17% ei fod yn ddrud i gael gwyliau yn y DU, felly byddent yn dewis cael gwyliau dramor oherwydd rhesymau ariannol - gweler Tabl 6 isod.

Tabl 6

Pam fyddech chi'n dweud <u>na</u> fyddai gwesteion / ymwelwyr yn parhau i ddewis gwyliau yn y DU (heb awgrymiadau)?	% pob busnes
Tywydd gwael / tywydd anwadal / tywydd gwell dramor	46
Bydd pobl yn dechrau teithio pan fydd yr economi yn gwella / pan fydd ganddynt fwy o arian	39
Mae'n ddrud i gael gwyliau yn y DU / rhatach i fynd dramor	17
Bydd pobl yn dewis cael gwyliau tramor ac yn y DU / cael dau wyliau	7
Arall	13

Sylfaen = pob busnes sydd o'r farn na fydd pobl o'r DU yn parhau i gael gwyliau yn y DU (70)

ATODIAD

Holiadur yr Arolwg

TWRISTIAETH BUSNES CROESO CYMRU – CAM 2
HOLIADUR TERFYNOL (9^{fed} AWST 2014)

Bore da/ prynhawn da/ noswaith dda fy enw i yw ____ o Beaufort Research, Asiantaeth Ymchwil i'r Farchnad annibynnol yng Nghymru. Rwy'n ffonio ar ran Croeso Cymru sydd â diddordeb yn eich barn ar faterion sy'n ymwneud â thwristiaeth yng Nghymru. Bydd yr arolwg ond yn cymryd ychydig o funudau a bydd popeth a ddywedwch yn aros yn gyfrinachol, gyda'r canlyniadau yn cael eu cyfuno gydag ymatebion busnesau eraill a'u hadrodd i Croeso Cymru.

Galla i wirio un peth, ai chi yw perchennog y busnes neu a oes gennych chi rôl rheoli yn y busnes?

OS NA, gofynnwch am gael siarad â rhywun sydd â rôl rheoli/ y perchennog.

S1 Alla i wirio - ydych chi'n siarad Cymraeg?

Ydw - yn rhugl → **S2**

Ydw - ond nid yn rhugl → **S2**

Nac ydw - nid yw'n siarad Cymraeg → **Q1**

S2 A fyddai'n well gennych chi gael y cwestiynau'n Saesneg neu'n Gymraeg?

Saesneg

Cymraeg

CWESTIYNAU CRAIDD

Q1 A gafodd eich busnes ei sefydlu am fwy na 12 mis?

Do (**Ewch i Q2**)

Naddo (**Ewch i Q6**)

Q2 O gymharu â mis Awst y llynedd, faint o westeion/ymwelwyr sydd wedi bod gyda chi yn ystod mis Awst eleni?

DARLLENWCH YN UCHEL - COD UNIGOL

Mwy na'r llynedd → **Q3**

Yr un peth a'r llynedd → **Q5**

Llai na'r llynedd → **Q4**

Ddim yn gwybod → **Q5**

Q3 (OS MWY) Pam ydych chi'n meddwl eich bod wedi cael mwy o westeion/ymwelwyr?

PEIDIWCH Â CHYNNIG AWGRYMIADAU - CODIWCH BOB UN Y SONNIR AMDANO

Mwy o bobl Brydeinig yn aros yn y DU

Tywydd gwell

Marchnata eu hunain

Busnes wrth yr un bobl

Gwelliant mewn twristiaeth

Argymhellion

Mwy o gapasiti

Digwyddiadau yn yr ardal

Ystafelloedd/cyfleusterau gwell

Mwy o ymwelwyr o dramor

Hysbysebion teledu Croeso Cymru

Arall (nodwch)

Ddim yn gwybod

**Q4 (OS LLAI) Pam ydych chi'n meddwl eich bod wedi cael llai o westeion/ymwelwyr?
PEIDIWCH Â CHYNNIG AWGRYMIADAU - CODIWCH BOB UN Y SONNIR AMDANO**

Hinsawdd economaidd
Tywydd ddim cystal
Problemau na ellid eu rhagweld
Cystadleuaeth gref
Dirywiad mewn twristiaeth yn yr ardal
Busnes yn tawelu
Llai o ymwelwyr o dramor
Heb hyrwyddo'r busnes
Arall (nodwch)
Ddim yn gwybod

Q5 O gymharu â mis Awst y llynedd, sut fyddech chi'n disgrifio'r trosiant ar gyfer mis Awst eleni?

DARLLENWCH YN UCHEL - COD UNIGOL

Yn uwch na'r llynedd
Yr un peth a'r llynedd
Yn is na'r llynedd
Ddim yn gwybod

TARDDIAD YR YMWELWYR

GOFYNNWCH I'R HOLL FUSNESAU SYDD WEDI BOD YN GWEITHREDU AM FWY NA 12 MIS

DARLLENWCH YN UCHEL - Gan edrych nawr ar ardal breswyl eich ymwelwyr.

Q6 Sut oedd cyfran eich ymwelwyr o NODWCH O'R RHESTR yr haf hwn yn 2014 yn cymharu â haf 2013?

DARLLENWCH YN UCHEL - COD UNIGOL - TROWCH YR ATEBION O CHWITH RHWNG YMATEBWYR

Mwy na'r llynedd
Yr un peth a'r llynedd
Llai na'r llynedd

Ddim yn gwybod

RHESTR

Cymru
Y DU tu allan i Gymru
Gweriniaeth Iwerddon
Yr Almaen
Yr UDA
Unrhyw wledydd tramor eraill

Ddim yn berthnasol – ddim yn derbyn ymwelwyr o (Gymru, tu allan i Gymru o fewn y DU, Gweriniaeth Iwerddon, yr Almaen, UDA, Unrhyw wledydd tramor eraill)

GOFYNNWCH I'R HOLL FUSNESAU SYDD WEDI BOD YN GWEITHREDU AM FWY NA 12 MIS

Q7 Ac eto o gymharu â'r llynedd, a fyddech chi'n dweud bod eich gwesteion / ymwelwyr yn teithio mwy o bellter neu lai o bellter i gyrraedd eich sefydliad, neu a oes dim newid o gwbl?

DARLLENWCH YN UCHEL - COD UNIGOL - TROWCH YR ATEBION O CHWITH RHWNG YMATEBWYR

Teithio pellteroedd llawer hirach
Teithio pellteroedd ychydig yn hirach
Dim newid
Teithio pellteroedd ychydig yn llai
Teithio pellteroedd llawer llai

Mae'n amrywio
Ddim yn gwybod

Q8 Pa mor bell, ar gyfartaledd, fyddech chi'n dweud bod eich gwesteion / ymwelwyr yn teithio yn y car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd eich sefydliad?

DARLLENWCH YN UCHEL - COD UNIGOL

Llai nag un awr
1 – 1.5 awr
1.5 – 2 awr
2 – 2.5 awr
2.5 – 3 awr
Mwy na 3 awr

Mae'n amrywio
Ddim yn gwybod

GWYLIAU GARTREF

DARLLENWCH YN UCHEL - Mae gwyliau gartref wedi dod yn boblogaidd yn y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae unigolion a theuluoedd yn dewis treulio eu gwyliau naill ai gartref neu mewn ardaloedd eraill o fewn y DU, ac yn teithio i safleoedd twristiaeth cyfagos am ddiwrnod yn hytrach na theithio dramor.

Q9 I ba raddau mae eich busnes wedi elwa o'r 'Ffenomen Gwyliau gartref'? Defnyddiwch raddfa rhwng 1 - 5, lle mae 1 yn golygu 'Wedi elwa i raddau helaeth', a 5 yn golygu 'Ddim wedi elwa o gwbl'

DARLLENWCH YN UCHEL - COD UNIGOL

1 - Wedi elwa i raddau helaeth
2
3
4
5 - Ddim wedi elwa o gwbl

Q10 Yn ystod y blynyddoedd nesaf, ydych chi'n credu y bydd pobl o'r DU yn parhau i ddewis gwyliau gartref yn hytrach na gwyliau dramor?

DARLLENWCH YN UCHEL - COD UNIGOL - TROWCH YR ATEBION O CHWITH RHWNG YMATEBWYR

1. Byddant - yn sicr
2. Byddant - mae'n debyg
3. Na fyddant - eithaf annhebygol
4. Na fyddant - bendant ddim

Ddim yn gwybod

OS CODIWDYD 1 NEU 2 YN Q10 (BYDDANT)

Q11a Pam eich bod yn dweud hynny?

COFNODWCH AIR AM AIR

Ddim yn gwybod

OS CODIWDYD 3 NEU 4 YN Q 10 (NA)

Q11b Pam eich bod yn dweud hynny?

COFNODWCH AIR AM AIR

Ddim yn gwybod

CWESTIYNAU CRAIDD

Q12 Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich lleoliad orau?

DARLLENWCH YN UCHEL - COD UNIGOL

- Glan y môr
- Trefol
- Mewndirol
- Ddim yn gwybod

Q13 Pa mor hyderus ydych chi am dymor yr hydref?

DARLLENWCH YN UCHEL - TROWCH YR ATEBION O CHWITH RHWNG YMATEBWYR

- Hyderus iawn
- Eithaf hyderus
- Ddim yn hyderus iawn
- Ddim yn hyderus o gwbl
- Ddim yn gwybod

Q14 I'n helpu gyda'r dadansoddiad, a alla i ofyn a yw'ch busnes wedi'i raddio neu ei achredu gan Croeso Cymru?

Ydy

Nac ydy

Ddim yn gwybod

DARLLENWCH YN UCHEL

Diolch am roi o'ch amser.

I gadarnhau, fy enw yw xxxxx, ac rwy'n ffonio o Beaufort Research a chynhaliwyd yr arolwg hwn yn unol â Chod Ymarfer y Gymdeithas Ymchwil Marchnata.

Os hoffech wirio ein cymwysterau gallwch ffonio'r Gymdeithas Ymchwil Marchnata am ddim ar 0500 39 69 99.

Diolch eto a hwyl fawr.